



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Adroddiad ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddir o dan
adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfeirnod 63



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Cynnwys

1	Cyd-destun	1
2	Sail yr ymchwiliad	2
3	Yr ymchwiliad	4
4	Y dystiolaeth	6
5	Casgliadau	13
6	Argymhellion	18
7	Mynegai i'r atodiadau	19

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn unol ag adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn sgil trosglwyddo swyddogaethau perthnasol o dan y Ddeddf i'r Comisiynydd drwy gyfres o offerynnau statudol.

Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i'r posibilrwydd o fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith o dan adran 17 y Ddeddf:

17. – (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd¹, boed yn sgil cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.

(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ac y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Cwynion am fethu â chydymffurfio

Mae adran 18 y Ddeddf yn gymwys lle gyflwynir cwyn gan berson am fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith:

18. – (1) Mae'r adran hon yn gymwys –

(a) lle cyflwynir cwyn ysgrifenedig i'r Bwrdd gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi effeithio'n uniongyrchol arno,

(b) lle gwneir y gwyn o fewn cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y gwybu'r achwynydd gyntaf am y materion a honnir yn y gwyn, ac

(c) lle y mae'r Bwrdd yn fodlon fod yr achwynydd wedi dod â'r mater y cwynir amdano i sylw'r corff cyhoeddus o dan sylw a bod y corff hwnnw wedi cael cyfle rhesymol i'w ystyried ac i ymateb.

(2) Lle y mae'r adran hon yn gymwys, bydd y Bwrdd naill ai'n ymchwilio i'r gwyn honno o dan adran 17 uchod neu'n anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.

¹ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth, 2012 a throsglwyddwyd y pŵer i ymchwilio i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill, 2012. Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn y rhagair hwn yn gyfystyr â chyfeiriad at y Comisiynydd.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Adroddiadau ar ymchwiliadau

Llunnir adroddiad o dan adran 19 y Ddeddf ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad:

19. – (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol² ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgil cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd.

(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i'r adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf adroddiad a wneir o dan is adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.

(3) Lle bydd y Bwrdd ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Os yw'r Comisiynydd o'r farn, yn dilyn llunio adroddiad, bod corff cyhoeddus wedi methu â gweithredu camau a argymhellwyd ganddo, caiff gyfeirio'r mater at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg:

20. – (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred y bo'n briodol.

(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan isadran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.

² Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, anfonir adroddiadau o dan adran 19 y Ddeddf at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

1 Cyd-destun

- 1.1 Mae gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gynllun iaith Gymraeg a baratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Cafodd y cynllun iaith ei gymeradwyo ar 28 Chwefror 2020.
- 1.2 Mae'r cynllun iaith yn datgan fod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- 1.3 Prif amcan yr adroddiad hwn yw dod i gasgliadau, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, ynglŷn â chydymffurfiaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus â chymalau penodol o'i gynllun iaith. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau ynghylch perfformiad cyffredinol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wrth gyflawni ei gynllun iaith.
- 1.4 Dyma'r ymchwiliad cyntaf i mi ei gynnal o dan adran 17 y Ddeddf yn achos Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn breifat gan swyddogion rheoleiddio'r Comisiynydd. Dymunaf ddiolch i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am ei gydweithrediad yn ystod yr ymchwiliad.

2 Sail yr ymchwiliad

Cwyn 1

- 2.1 Derbyniais gŵyn ar 20 Mawrth 2020, yn ymwneud ag oedi sylweddol a phroblemau wrth geisio cofrestru am Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer client yr achwynydd yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd mai'r rheswm dros yr oedi a'r problemau y profodd oedd bod ei chlient wedi gohebu yn Gymraeg gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac wedi gofyn am Atwrneiaeth Arhosol yn Gymraeg.
- 2.2 Honnai'r achwynydd i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus nodi y byddai cais am ymatebion Cymraeg yn oedi'r broses, a bu'r Swyddfa'n parhau i anfon gohebiaeth a dogfennau yn Saesneg yn unig yn groes i ddymuniadau'r achwynydd a'r cleiant dros y cyfnod prosesu'r ceisiadau.
- 2.3 Anfonwyd llythyr at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 19 Mai 2020 yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth mewn perthynas â'r amheuaeth erbyn 3 Mehefin 2020.
- 2.4 Cafwyd ymateb i'r llythyr ar ffurf e-bost ar 17 Gorffennaf 2020. Roedd yr ymateb yn cadarnhau bod yr holl ohebiaeth gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ynglŷn â'r Atwrneiaeth Arhosol (LPA) iechyd a lles wedi bod yn Saesneg, er bod y dewis iaith yn wybyddus. Mae'r Swyddfa hefyd yn cydnabod nad oedd wedi anfon yr ohebiaeth yn Gymraeg nag ychwaith wedi delio gyda chwynion uniongyrchol yr achwynydd yn briodol.

Cwyn 2

- 2.5 Ar 27 Medi 2020 derbyniais gŵyn bellach gan aelod o'r cyhoedd am fethiant i gwblhau cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein yn Gymraeg, ac oedi wrth ohebu.
- 2.6 Honnir mai drwy'r Saesneg yn unig y gellir cwblhau cais ar-lein, a olyga mai yn Saesneg y byddai'r ffurflenni cais terfynol.

Cwyn 3

- 2.7 Derbyniais gŵyn ar 10 Tachwedd 2020, ynglŷn â methiant gan unigolyn i wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein yn Gymraeg, ac at oedi wrth dderbyn gohebiaeth.
- 2.8 Honnai'r achwynydd wrth glicio ar y ddolen berthnasol eich bod yn cael eich arwain at dudalen ac adnoddau Saesneg yn unig.
- 2.9 Anfonwyd llythyr pellach at Nick Goodwin y Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 11 Mehefin 2021 yn gofyn am wybodaeth parthed cwyn 2 a 3.
- 2.10 Derbyniwyd ymateb ar 25 Mehefin 2021 a oedd yn egluro:

“nad yw'n bosibl llenwi'r cais yn llawn yn Gymraeg nac yn Saesneg oherwydd, o dan ddeddfwriaeth gyfredol, ar gyfer y ddwy iaith, rhaid argraffu'r ffurflenni, eu llofnodi a'u hanfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i'w cofrestru..... Mae'r 'adnodd i wneud cais am atwrneiaeth arhosol ar-lein' yn caniatáu i bobl lenwi rhai meysydd ar-lein, fodd bynnag, nid oes modd cyflwyno'r cais yn electronig.”

- 2.11 Cadarnhaodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus na dderbyniodd achwynydd yr ail gŵyn ymateb o fewn y 10 diwrnod targed. Nodwyd i'r broblem gael ei hachosi oherwydd diffyg cyfathrebu wrth geisio trosglwyddo'r neges i'r tîm perthnasol.
- 2.12 Eglurwyd bod ymateb wedi ei ddrafftio at achwynydd y drydedd gŵyn ond oherwydd esgeulustod gweinyddol, ni chafodd yr ymateb ei anfon ato.
- 2.13 Derbyniwyd ymateb i'r adroddiad drafft gan un o'r achwynwyr a deimlai bod ymateb Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus "braidd yn anonest". Dywedodd ei fod yn cytuno na ellir gwneud cais llawn am atwrneiaeth arhosol ar-lein yn Gymraeg nac yn Saesneg ond "mae modd gwneud cais ar-lein yn Saesneg hyd at y pwynt lle mae'n rhaid argraffu'r gwaith papur a'i lofnodi". Ychwanegodd mai byrdwn ei gŵyn oedd "nad yw'r Swyddfa'n cynnig y cyfle hyd yn oed i wneud y cais rhannol ar-lein yn Gymraeg".

3 Yr ymchwiliad

- 3.1 Penderfynais arfer fy mhwerau o dan adran 17 y Ddeddf er mwyn cynnal ymchwiliad i ganfod a fu methiant gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gyflawni'r cynllun iaith. Hysbyswyd y Gwarcheidwad Cyhoeddus o hyn ar 4 Mawrth 2021.
- 3.2 Ar 4 Mawrth 2021 anfonais lythyr at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn egluro testun a threfn yr ymchwiliad ac yn gofyn cwestiynau ar gyfer cywain gwybodaeth. Eglurwyd y byddai'r ymchwiliad yn ystyried cyflawniad y cymalau canlynol o'r cynllun iaith:

3. Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

3.1 Cyfathrebu'n ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost)

- *Pan fyddwn yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlen â gohebiaeth Saesneg. Pan na fydd modd i ni ateb yn llawn o fewn yr amserlen honno, byddwn yn ysgrifennu ac yn egluro hynny yn Gymraeg.*
- *Ni ddylai gohebiaeth Gymraeg arwain at oedi.*

4. Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

4.3 Cyhoeddiadau a ffurflenni

- *Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau dwyieithog neu Gymraeg ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg mewn print neu ar ein gwefan yn GOV.UK ac ar yr un pryd.*

4.4 Y rhyngrwyd

- *Ni sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynnwys ar ein tudalennau unigol ar y wefan hon, megis ein hafan, ein ffurflenni a'n canllawiau a byddwn yn sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

- 3.3 Nodwyd y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn breifat gan dîm Ymchwilio a Gorfodi'r Comisiynydd, ac y byddai'n dilyn y camau canlynol:

1. Derbyn gwybodaeth a thystiolaeth gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus erbyn 1 Ebrill 2021.
2. Cynnal dadansoddiad pen desg o'r wybodaeth ac ystyried yr angen i gasglu gwybodaeth bellach, er enghraifft trwy gyfarfod gyda swyddogion Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
3. Paratoi adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a rhoi cyfle i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wirio ei ffeithiau.

4. Anfon copi o'r adroddiad terfynol at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.
5. Cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cydymffurfiaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gyda chymalau penodol o'i gynllun iaith. Mae wedi'i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn llythyr dyddiedig 12/04/2021. Mae copi o'r llythyr i'w ganfod yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn a gwybodaeth bellach a dderbyniwyd mewn gohebiaeth ar 17/07/2020, 25/06/2021 ac ar 16/08/2021.

4 Y dystiolaeth

Ystyriaeth 1: Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Roedd amheuaeth nad oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

3.1 Cyfathrebu'n ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost)

- Pan fyddwn yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlen â gohebiaeth Saesneg. Pan na fydd modd i ni ateb yn llawn o fewn yr amserlen honno, byddwn yn ysgrifennu ac yn egluro hynny yn Gymraeg.
- Ni ddylai gohebiaeth Gymraeg arwain at oedi.

4.1 Ar adeg yr ymchwiliad, derbyniais dair cwyn yn honni bod oedi sylweddol wedi cymryd lle cyn i'r achwynwyr dderbyn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg.

Cwyn 1

4.2 Derbyniais gŵyn ar 20 Mawrth 2020, yn ymwneud ag oedi a phroblemau wrth geisio cofrestru am Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer client yr achwynydd yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd mai'r rheswm dros yr oedi a'r problemau y profodd oedd bod ei chlient wedi gohebu yn Gymraeg gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac wedi gofyn am Atwrneiaeth Arhosol yn Gymraeg.

4.3 Honnai'r achwynydd ei bod wedi gwneud dau gais am Atwrneiaeth Arhosol, un ar gyfer penderfyniadau iechyd a gofal, ac un ar gyfer penderfyniadau ariannol ym mis Chwefror 2019.

4.4 Derbyniodd yr achwynydd yr Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer yr penderfyniadau iechyd a gofal erbyn mis Ebrill 2019, ond darparwyd fersiwn Saesneg yn unig. Bu rhaid i gleiant yr achwynydd aros tan Chwefror 2020 cyn derbyn yr Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unol â'i dewis i'w dderbyn yn Gymraeg. Er iddi fod mewn cyswllt rheolaidd gyda'r Swyddfa yn gofyn am ymateb a dogfennau Cymraeg, bu'r cyfnod aros nes derbyn yr ohebiaeth yn Gymraeg yn flwyddyn.

4.5 Honnai'r achwynydd i'r Swyddfa nodi y byddai cais am ymatebion Cymraeg yn oedi'r broses a bu'r Swyddfa'n parhau i anfon gohebiaeth a dogfennau yn Saesneg yn unig yn groes i ddymuniadau'r achwynydd a'r cleiant dros y cyfnod prosesu'r ceisiadau.

Cwyn 2

4.6 Ar 27 Medi 2020, derbyniais gŵyn gan unigolyn yn cyfeirio at oedi wrth ohebu. Ysgrifennodd yr achwynydd at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 23 Awst 2021. Derbyniodd neges uniaith Saesneg ar 1af Medi 2021 yn nodi:

Thank you for your email dated 23 August 2020, the contents of which have been noted. I have passed on your email to our service improvement concerning your query and they will be in touch in due course – this should take around 10 days.

If you have any further queries, please do not hesitate to call us on 0300 456 0300 or email the OPG at customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk. Further information can also be found on GOV.UK at www.gov.uk/power-of-attorney and Justice at <http://www.justice.gov.uk/about/opg>

Nid oedd yr achwynydd wedi derbyn ymateb ar adeg cyflwyno'r gŵyn.

Cwyn 3

- 4.7 Ar 10 Tachwedd 2020 derbyniais gŵyn am yr oedi wrth dderbyn gohebiaeth. Honnir bod pob e-bost at gyfeiriad gwasanaethau cwsmeriaid y Swyddfa yn arwain at ymateb awtomatig yn nodi yr ymdrechir i ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Nododd yr achwynydd iddo dderbyn neges (mewn ymateb i e-bost a anfonodd yn Saesneg gan iddo fethu a derbyn ymateb i'w negeseuon yn Gymraeg) yn egluro bod ei ohebiaeth wreiddiol yn Gymraeg yn cael ei anfon at gyfieithwyr, ac o ganlyniad yn cymryd oddeutu 21 diwrnod i ymateb.
- 4.8 Er cyflawnder, dylid nodi bod achwynydd y drydedd gŵyn, wrth ymateb i'r adroddiad drafft, wedi nodi iddo anfon 10 neges at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus heb dderbyn ateb "o sylwedd" i'r un ohonynt.
- 4.9 Er mwyn canfod a oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Swyddfa) wedi cydymffurfio gyda'r cymalau uchod o'i gynllun iaith Gymraeg, gofynnwyd iddo wirio honiad yr achwynydd ac egluro i mi:
- *sut y mae'r swyddfa yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg y mae'n ei dderbyn,*
 - *sut y mae'n sicrhau bod personau sy'n gohebu'n Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg,*
 - *sut y gellir sicrhau nad yw'r angen i gyfieithu gohebiaeth yn arwain at oedi.*
- 4.10 Gofynnais yn ogystal iddo ddarparu rhesymau dros yr oedi honedig, ynghyd ag unrhyw gamau y bu'r Swyddfa yn eu cymryd i sicrhau na fyddai oedi wrth gofrestru yn digwydd eto.
- 4.11 Mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth, ar 12 Ebrill 2021, dywedodd y Swyddfa y bu oedi wrth brosesu Atwrneiaeth Arhosol a gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.
- 4.12 Yn ei ymateb, dyddiedig 17 Gorffennaf 2020, eglurodd y Swyddfa fod dau gais am Atwrneiaeth Arhosol (LPA) wedi eu derbyn yn Gymraeg ar 26 Chwefror 2019 ac iddynt gael eu prosesu yn Gymraeg.
- 4.13 Eglurwyd i'r cais LPA ar gyfer iechyd a lles ei gofrestru ar 16 Ebrill 2019, o fewn y cyfnod statudol o 8 wythnos, ond y bu oedi o ran cofrestru'r LPA eiddo a chyllid gan iddo gael ei ddal yn ôl i'w benodi i weithiwr achos (nodir bod hyn yn arferol). Nodwyd i'r cais gael ei ddal yn nol ymhellach er mwyn cyfieithu'r llythyrau.

- 4.14 Nodwyd mewn gohebiaeth ddyddiedig 12 Ebrill 2021 na chafodd y cyfieithiadau eu postio fel y dylent ac yn unol â phrosesau Swyddfa'r Gwarcheidwad cyhoeddus.
- 4.15 Yn ei ohebiaeth 17 Gorffennaf 2020, nododd y Swyddfa bod anghysondeb iaith yn y llythyrau cofrestru a anfonwyd at achwynydd y gŵyn gyntaf, a chadarnhawyd bod yr holl ohebiaeth gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ynglŷn a'r LPA iechyd a lles wedi bod yn Saesneg yn groes i ddymuniad yr achwynydd.
- 4.16 Yn yr achos hwn, eglurwyd i'r ddau gais LPA gael eu penodi i ddau weithiwr gwahanol sy'n awgrymu diffyg cyfathrebu o fewn y Swyddfa.
- 4.17 Nododd y Swyddfa iddo hysbysu cyfreithwyr achwynydd y gŵyn gyntaf ar 10 Gorffennaf 2019, y byddai cyfieithu gohebiaeth ynglŷn a'r LPA eiddo a chyllid yn arwain at oedi o 4-6 wythnos. Eglurwyd bod y wybodaeth hon yn anghywir a bod yr unigolyn a rannodd y neges wedi ei hysbysu o hynny.
- 4.18 Dywedodd i lythyrau Cymraeg gael eu hanfon parthed y cais eiddo a chyllid ar 18 Gorffennaf 2019, ond i i'r rhybuddion cofrestru ffurfiol gael eu hanfon yn Saesneg gan weithiwr achos arall ar 21 Awst 2019.
- 4.19 Derbyniodd achwynydd y gŵyn gyntaf y rhybuddion cofrestru eiddo a chyllid yn Gymraeg ym mis Chwefror 2020, blwyddyn ar ôl anfon y cais gwreiddiol.
- 4.20 Mae'r Swyddfa'n ymddiheuro am yr anghysondebau ac am yr oedi.
- 4.21 Mewn gohebiaeth dyddiedig 25 Mehefin 2021 eglurodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus iddo hysbysu achwynydd yr ail gŵyn y byddai'n cymryd tua 10 diwrnod i ateb ei ymholiad. Nodwyd mai dyma'r targed safonol i ateb pob ymholiad e-bost, yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- 4.22 Ar ôl ymchwilio, eglurodd:
- “roedd hi'n amlwg, er gwaethaf y bwriad, nad oedd yr e-bost wedi cyrraedd ein Tîm Gwella Gwasanaeth, ac nid yw'n hysbys ai esgeulustod ynteu broblem dechnegol oedd yn gyfrifol am hyn. Cafodd y broblem ei hachosi oherwydd diffyg cyfathrebu wrth geisio trosglwyddo'r neges i'r tîm perthnasol ac mae'n ymddangos nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw oedi wrth ddarparu gohebiaeth yn Gymraeg”.*
- 4.23 Ymddiheurwyd yn ddiffuant na chafodd ymholiad achwynydd yr ail gŵyn ymateb, ac am unrhyw anghyfleustra a achoswyd.
- 4.24 Ar ôl ymchwilio i'r drydedd gŵyn, eglurodd y Swyddfa yr ymddengys bod ymateb wedi cael ei ddrafftio i'w anfon at yr achwynydd, ac ychwanegodd:
- “ond oherwydd esgeulustod gweinyddol ni chafodd yr ymateb ei anfon ato. Yn amlwg, nid dyma lefel y gwasanaeth y dylai Mr xxxx ei disgwyl, na lefel y gwasanaeth rydym yn ceisio ei darparu. Rhoddwyd adborth priodol i'r unigolion ac i'r timau dan sylw, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau a lleihau'r posibilrwydd y gallai hyn ddigwydd eto yn y dyfodol.”*
- 4.25 Nododd y Swyddfa ei fod yn ymddiheuro'n ddiffuant bod achwynydd y drydedd gŵyn wedi cael anawsterau wrth geisio cael ymateb gan Dîm Rheoli Gwasanaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Ystyriaeth 2: Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (ffurflenni)

Roedd amheuaeth nad oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cyflawni'r cymal canlynol yn ei gynllun iaith:

4.3 Cyhoeddiadau a ffurflenni

- Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau dwyieithog neu Gymraeg ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg mewn print neu ar ein gwefan yn GOV.UK ac ar yr un pryd.

- 4.26 Ar 27 Medi 2020, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (cwyn 2) am fethiant i gwblhau cais am Atwrneiaeth Arhosol ar lein yn Gymraeg.
- 4.27 Dywedodd bod yn rhaid agor ac argraffu'r ffurflenni papur ymlaen llaw er mwyn gwneud cais yn y Gymraeg, ond bod modd llwytho'r dogfennau a llenwi'r manylion ar-lein drwy'r Saesneg (a fydd yn argraffu popeth wedyn yn hwylus ac wedi'i llenwi yn glir).
- 4.28 Derbyniais gŵyn pellach ar 10 Tachwedd 2020 (cwyn 3), ynglŷn â methiant gan unigolyn i wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein yn Gymraeg, er bod tudalen we Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn nodi:
- "Gallwch wneud atwrneiaeth arhosol (LPA) ar-lein – mae'n haws na defnyddio ffurflenni papur ac yn atal nifer o gamgymeriadau cyffredin".*
- 4.29 Honnai'r achwynydd wrth glicio ar y ddolen berthnasol eich bod yn cael eich arwain at dudalen ac adnoddau Saesneg yn unig.
- 4.30 Er mwyn canfod a oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r cymal uchod gofynnais i'r Swyddfa a oedd modd cwblhau cais ar-lein yn Gymraeg am Atwrneiaeth Arhosol.
- 4.31 Yn ei dystiolaeth dyddiedig 17 Gorffennaf 2020, noda'r Swyddfa:
- "Mae ein holl ddogfennau safonol megis ffurflenni cais LPA ar gael i'w llwytho i lawr o Gov.UK yn y Gymraeg a'r Saesneg".*
- 4.32 Fodd bynnag, fe ychwanegir:
- "Yn anffodus, profwyd rhywfaint o oedi gyda datblygiad ein gwasanaeth 'Use an LPA'. Ond rhagwelwn y bydd yn cyrraedd cam profi cyhoeddus ehangach ganol Gorffennaf 2020"*
- 4.33 Gofynnais am eglurhad sut y gellir datgan bod ffurflenni ar gael yn Gymraeg i'w llwytho, yr un pryd a nodi bod oedi wedi bod gyda datblygu'r gwasanaeth ar y we.

4.34 Yn ôl ymateb ysgrifenedig Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, nododd nad yw'r cyfeiriad at 'ffurflenni' yn y cyd-destun hwn yn ymestyn i'w gwasanaethau digidol.

4.35 Yn ei ohebiaeth 12 Ebrill 2021, cadarnhaodd y Swyddfa:

"Dim ond yn Saesneg mae'r gwasanaeth digidol presennol ar gyfer gwneud atwrneiaeth arhosol ar gael"

4.36 Aeth ymlaen i egluro bod gwneud cais am atwrneiaeth arhosol yn gofyn am lofnod â llaw, ac nad oes gwasanaeth cwbl ddigidol ar gael yn Gymraeg nac yn Saesneg ar hyn o bryd.

4.37 Roedd y manylion dderbyniais mewn gohebiaeth dyddiedig 17 Gorffennaf 2020 yn egluro bod dyletswydd statudol ar y Swyddfa i gofrestru LPAs o fewn 40 diwrnod gwaith, ac y cyfrifir ceisiadau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd y cyfartaledd gan fod ganddynt yr un targed statudol.

4.38 Wrth gyflwyno tystiolaeth ar 25 Mehefin 2021, nododd Swyddfa'r Gwarcheidwad cyhoeddus eu bod o ddifri ynghylch yr angen i ddarparu gwasanaethau rhagorol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyfeiriwyd at eu hymrwymiad wrth gyflwyno y gwasanaeth Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol yn Gymraeg ac yn Saesneg a chynnal ymgyrch hysbysebu 'Eich Llais Eich Penderfyniad', gan sicrhau bod yr hysbysebion yn Gymraeg.

Ystyriaeth 3: Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Rhyngrwyd)

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymal canlynol yn ei gynllun iaith:

4.4 Y rhyngrwyd

- Ni sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynnwys ar ein tudalennau unigol ar y wefan hon, megis ein hafan, ein ffurflenni a'n canllawiau a byddwn yn sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- 4.39 Er mwyn cydymffurfio gyda'r cymal uchod roedd angen i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus sicrhau bod eu ffurflenni a'u canllawiau ar ei gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.40 Dywedodd un achwynydd mai yn Saesneg yn unig oedd modd llwytho'r dogfennau a llenwi'r manylion i wneud cais am atwrneiaeth arhosol ar-lein.
- 4.41 Soniodd achwynydd arall bod tudalen gwe Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn nodi: "Gallwch wneud atwrneiaeth arhosol (LPA) ar-lein – mae'n haws na defnyddio ffurflenni papur ac yn atal nifer o gamgymeriadau cyffredin".
- 4.42 Dywedodd iddo glicio ar y ddolen berthnasol a chael ei arwain at dudalen ac adnoddau Saesneg yn unig.
- 4.43 Er mwyn canfod a oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r cymal uchod gofynnais i'r Swyddfa a oedd modd cwblhau cais ar-lein yn Gymraeg am atwrneiaeth arhosol.
- 4.44 Yn ei dystiolaeth dyddiedig 17 Gorffennaf 2020, noda'r Swyddfa:
- 4.45 *"Mae ein holl ddogfennau safonol megis ffurflenni cais LPA ar gael i'w llwytho i lawr o Gov.UK yn y Gymraeg a'r Saesneg"*.
- 4.46 Fodd bynnag, fe ychwanegir:
- 4.47 *"Yn anffodus, profwyd rhywfaint o oedi gyda datblygiad ein gwasanaeth 'Use an LPA'. Ond rhagwelwn y bydd yn cyrraedd cam profi cyhoeddus ehangach ganol Gorffennaf 2020"*
- 4.48 Yn ei ohebiaeth 12 Ebrill 2021, cadarnhaodd y Swyddfa:
- "Dim ond yn Saesneg mae'r gwasanaeth digidol presennol ar gyfer gwneud atwrneiaeth arhosol ar gael"*
- 4.49 Aeth ymlaen i egluro bod gwneud cais am atwrneiaeth arhosol yn gofyn am lofnod â llaw, ac nad oes gwasanaeth cwbl ddigidol ar gael yn Gymraeg nac yn Saesneg ar hyn o bryd.

- 4.50 Mewn gohebiaeth dyddiedig 17 Gorffennaf 2020, eglurwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau a moderneiddio gwasanaethau digidol LPA.
- 4.51 Nododd y byddai'r gwasanaeth 'Use an LPA' yn cyrraedd y cam o gyflwyno'r teclyn o grŵp cyfyngedig o brofwyr, ymlaen i gynulleidfa ehangach.
- 4.52 Ar 12 Ebrill 2021, dywedodd y Swyddfa y byddai'r gwasanaeth Cymraeg 'Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol' yn cael ei lansio ar 9 Medi 2020. Nododd bod y gwasanaeth hwn yn galluogi'r defnyddiwr sydd eisoes ag Atwrneiaeth Arhosol i rannu manylion gyda sefydliadau (fel banciau a darparwyr gofal sylfaenol) yn ddigidol.
- 4.53 Nodwyd mai'r bwriad yw disodli'r system Atwrneiaeth Arhosol bresennol â gwasanaeth wedi'i ddigideiddio'n llawn.
- 4.54 Mae'r Swyddfa'n nodi eu bod wedi ymrwmo i sicrhau y bydd eu gwasanaethau Atwrneiaeth Arhosol ar gael yn Gymraeg 'ar y cyfle cyntaf posibl'.
- 4.55 Wrth gyflwyno tystiolaeth ar 25 Mehefin 2021, nododd ei fod yn derbyn bod methu â gwneud cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein yn achosi rhwystredigaeth, ac ychwanegodd:

“Rwyf innau'n rhwystredig ynghylch hynny ac, fel sy'n cael ei egluro isod, mae hon yn broblem sy'n effeithio ar siaradwyr y naill iaith a'r llall ac rydym yn benderfynol o ddatrys hyn i bawb, os bydd deddfwriaeth yn caniatáu hynny. Er bod cyfleuster wedi cael ei ddatblygu yn 2013 i ganiatáu i ddefnyddwyr lenwi rhai rhannau o ffurflen gais ar-lein, nid yw'r gwasanaeth hwnnw gystal ag y gallai fod gan fod rhaid i'r rhannau gweithredol allweddol, gan gynnwys darparu llofnodion tystion a rhoddwyr, gael eu gwneud â llaw ar ffurflenni wedi'u hargraffu.”

- 4.56 Mewn gohebiaeth ddyddiedig 16 Awst 2021, dywedodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus eu bod wedi penderfynu peidio buddsoddi mewn datblygu'r system 'My LPA' yn Gymraeg, fel yr ymrwymwyd iddo yn y Cynllun Iaith, ar y sail eu bod am ganolbwyntio eu hymdrechion ar y system newydd LPA sydd am gael ei adeiladu.
- 4.57 Mewn cyfarfod a gafwyd gyda swyddogion o swyddfa'r Comisiynydd, eglurodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sydd yn rhedeg y prosiect. Nododd nad oes modd iddo osod dyddiad ar gyfer cwblhau'r prosiect gan ei fod yn dibynnu ar ddeddfwriaeth newydd cyn gallu cwblhau'r gwaith. Amcangyfrifwyd y gall hyn gymryd hyd at 4-5 mlynedd.

5 Casgliadau

- 5.1 Daw'r adroddiad hwn i farn ynglŷn â chydymffurfiaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus â'i gynllun iaith. Yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael casglaf fod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio a chymalau 3.1, 4.3 a 4.4 o'r cynllun iaith.

Casgliad 1: Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Roedd amheuaeth nad oedd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

3.1 Cyfathrebu'n ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost)

- Pan fyddwn yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlen â gohebiaeth Saesneg. Pan na fydd modd i ni ateb yn llawn o fewn yr amserlen honno, byddwn yn ysgrifennu ac yn egluro hynny yn Gymraeg.
- Ni ddylai gohebiaeth Gymraeg arwain at oedi.

- 5.2 Ymddengys na ddarparwyd gwasanaeth Cymraeg i'r achwynwyr o fewn yr un amserlen â gohebiaeth Saesneg.
- 5.3 Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cydnabod bod anghysondeb iaith yn y llythyrau cofrestru a anfonwyd at achwynydd y gŵyn gyntaf, a chadarnhawyd bod yr holl ohebiaeth gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ynglŷn a'r LPA iechyd a lles wedi bod yn Saesneg yn groes i ddymuniad yr achwynydd.
- 5.4 Er mwyn cydymffurfio â'r cymal uchod, byddwn yn disgwyl bod gohebiaeth Gymraeg yn cael ei ateb o fewn yr un amser a gohebiaeth Saesneg. Nododd y Swyddfa iddo hysbysu cyfreithwyr achwynydd y gŵyn gyntaf, ar 10 Gorffennaf 2019, y byddai cyfieithu gohebiaeth ynglŷn a'r LPA eiddo a chyllid yn arwain at oedi o 4-6 wythnos.
- 5.5 Mae hyn yn groes i gynnwys cymalau'r cynllun iaith sy'n nodi'n glir na ddylai gohebiaeth Gymraeg arwain at oedi.
- 5.6 Nododd, yn ei ohebiaeth dyddiedig 12 Ebrill 2021:

"...gallwn gadarnhau na fu oedi o ganlyniad i'r angen i gyfieithu llythyrau."

Mae hyn yn gwrth ddweud yr hyn a nodir ar 17 Gorffennaf 2020. Eglurodd mai camddealltwriaeth ar ran gweithiwr achos oedd dal yr Atwrneiaeth Arhosol yn ôl a bod yr unigolyn wedi ei hysbysu.

- 5.7 Yn ogystal, nodwyd bod y darpariaethau wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig yn cynnwys y canlynol:

“Mae croeso i gwsmeriaid gyfathrebu a ni drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu’n ddwyieithog. Rydym yn defnyddio’r un targedau ar gyfer anfon gohebiaeth yn Gymraeg a gohebiaeth a anfonir yn Saesneg”.

- 5.8 Ymddengys bod tystiolaeth yr achwynwyr a thystiolaeth Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn datgan yn groes i ofynion y cymalau uchod o’r cynllun iaith.
- 5.9 Mae’r ymateb yn nodi fod nifer o bethau wedi mynd o’i le a bod swyddogion heb gymryd camau cywir wrth ddelio gyda’r achos. Eglurwyd bod gweithiwr achos wedi hysbysu un achwynydd y byddai’n cymryd rhwng 4-6 wythnos i gyfieithu gohebiaeth. Cadarnhawyd bod y wybodaeth a roddwyd yn anghywir.
- 5.10 Yn ei dystiolaeth 12 Ebrill 2021, dywedodd y Swyddfa bod y tîm Cynnwys yn *“gweithredu gwasanaeth cyfieithu cadarn”*, a’u bod o’r farn nad oes angen rhagor o gamau cywiro er mwyn darparu sicrwydd yn eu gwasanaeth.
- 5.11 Serch hynny, mae’r swyddfa yn cyfeirio at, ac yn cadarnhau:
- i ‘gais gael ei ddal yn ôl’;
 - bod gohebiaeth wedi ei anfon yn Saesneg er mai’r Gymraeg yw’r dewis iaith;
 - y bu ‘esgeulustod neu broblemau technegol’
 - cyfeiriwyd at ‘esgeulustod gweinyddol’
 - i wybodaeth anghywir gael ei rannu
- 5.12 Ceir yr argraff bod yr anghysondebau yn deillio o ddiffyg cyfathrebu mewnol ar fwy nag un achlysur a diffyg bodolaeth proses gadarn wrth ddelio â gohebiaeth yn Gymraeg.
- 5.13 Nid yw’r ymateb yn mynd i’r afael â’r trefniadau neu systemau sydd wedi arwain at y methiannau yn yr achos hwn. Er yn adnabod beth aeth o’i le, nid yw’r Swyddfa yn datgan unrhyw gamau i sicrhau nad yw sefyllfa o’r fath yn codi eto. Nid oes sicrwydd wedi ei gynnig yn yr ymateb sy’n rhoi hyder mai llithriadau sydd wedi digwydd yma.
- 5.14 Wrth gyflwyno ei dystiolaeth, mae ymateb y Swyddfa yn glir bod methiant yma i ymateb i ohebiaeth Gymraeg o fewn yr un amserlen a gohebiaeth Saesneg, a hynny ar fwy nag un achlysur. Yn wir, ymddengys bod oedi wrth ddelio â gohebiaeth neu geisiadau cofrestru yn Gymraeg.

Ar sail yr uchod rwyf o’r farn bod Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi methu â chyflawni cymal 3.1 o’i gynllun iaith.

Casgliad 2: Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

4.3 Cyhoeddiadau a ffurflenni

- *Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau dwyieithog neu Gymraeg ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg mewn print neu ar ein gwefan yn GOV.UK ac ar yr un pryd.*

- 5.15 Methodd yr achwynwyr a chwblhau cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein yn Gymraeg gan fod angen llwytho ac argraffu'r ffurflenni Cymraeg tra honnir bod modd cwblhau'r wybodaeth ar-lein yn Saesneg.
- 5.16 Soniodd un achwynydd bod tudalen gwe Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn nodi: "Gallwch wneud Atwrneiaeth Arhosol (LPA) ar-lein – mae'n haws na defnyddio ffurflenni papur ac yn atal nifer o gamgymeriadau cyffredin". Ymddengys, mae gwneud cais ar-lein yw'r modd y mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei gymeradwyo.
- 5.17 Ystyriais sylw'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus nad yw'r cyfeiriad at 'ffurflenni' yn y cyd-destun hwn yn ymestyn i'w gwasanaethau digidol.
- 5.18 Rwy'n derbyn bod y ffurflenni ar gael yn y Gymraeg i'w hargraffu, ond heb yr adnodd i alluogi unigolyn i wneud cais, drwy gwblhau ffurflen ar-lein yn Gymraeg, nid yw Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn unol â'i gynllun iaith.
- 5.19 Mae'r ffaith nad yw'r Swyddfa yn cyfri amser delio â cheisiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn bryder, gan nad oes modd iddynt nodi fod problemau yn codi, neu bod oedi o ganlyniad i geisiadau a wnaed yn Gymraeg. Wrth dderbyn bod y darged statudol yn berthnasol a rhaid ei chyrraedd ar gyfer y ddwy iaith, gellir hefyd mesur amserlen y gwasanaeth Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer pwrpas sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cynllun iaith.
- 5.20 Ymddengys bod llithriadau wrth ddelio â cheisiadau nifer o unigolion, ac nad yw'r Swyddfa wedi cynnig unrhyw newidiadau i'w trefniadau, neu gynnig proses oruchwylio neu reoli er mwyn datrys y llithriadau.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi methu â chyflawni cymal 4.3 o'i gynllun iaith.

4.4 Y rhyngwyd

- *Ni sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynnwys ar ein tudalennau unigol ar y wefan hon, megis ein hafan, ein ffurflenni a'n canllawiau a byddwn yn sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

- 5.21 Methodd yr achwynwyr a chwblhau cais am atwrneiaeth arhosol ar -lein yn Gymraeg. Nododd un achwynydd iddo glicio ar y ddolen berthnasol a chael ei arwain at dudalen ac adnoddau Saesneg yn unig.
- 5.22 Ystyriais dystiolaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad cyhoeddus oedd yn nodi "*Dim ond yn Saesneg mae'r gwasanaeth digidol presennol ar gyfer gwneud atwrneiaeth arhosol ar gael*".
- 5.23 Er mwyn cydymffurfio â chymal 4.4. o'r cynllun iaith, mae angen i dudalennau'r wefan, yn cynnwys ffurflenni, fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd, a bod dolenni'n arwain at adnoddau yn yr iaith a ddewisir heb rwystr.
- 5.24 Ystyriais i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus nodi eu bod wedi ymrwymo i sicrhau bod eu gwasanaethau Atwrneiaeth Arhosol ar gael yn Gymraeg "*ar y cyfle cyntaf posibl*". Fodd bynnag, mae'n destun pryder nad oes amserlen wedi ei chyflwyno sy'n nodi pa bryd y byddir yn cwblhau'r gwaith, a pha bryd y bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu cwblhau cais am atwrneiaeth arhosol ar-lein yn Gymraeg. Nid oes tystiolaeth eu bod wedi ystyried canllawiau mwyaf diweddar Comisiynydd y Gymraeg ar feddalwedd ddwyieithog ychwaith.
- 5.25 Ystyriais mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fydd yn rhedeg y prosiect ac nad oes modd gosod dyddiad ar gyfer cwblhau'r prosiect gan ei fod yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth newydd ac y gall y gwaith gymryd hyd at 4-5 mlynedd i'w gwblhau.
- 5.26 Ystyriais i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus nodi mewn gohebiaeth dyddiedig 16 Awst 2021 eu bod am ganolbwyntio eu hymdrechion ar y system newydd LPA sydd am gael ei hadeiladu yn hytrach na buddsoddi mewn datblygu'r system 'My LPA' yn Gymraeg.
- 5.27 Ystyriais fod y prosiect i foderneiddio'r broses LPA yn un fawr a chymhleth. Fodd bynnag, fe ddylai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ystyried defnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a datblygu eu gwasanaethau technoleg gwybodaeth yn hytrach na meddwl am welliannau neu ddatrysiadau'n ddiweddarach.
- 5.28 Ymddengys nad yw swyddfa'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod difrifoldeb y sefyllfa a'r rhwystredigaeth sydd wedi ei achosi i'r achwynwyr wrth geisio cofrestru am Atwrneiaeth Arhosol yn y Gymraeg.
- 5.29 Ni ddylai defnyddwyr gwasanaethau orfod mynd allan o'u ffordd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhaid i sefydliadau gynnig gwasanaethau Cymraeg sydd o ansawdd da ac mae angen gwneud hynny'n ddiodyn neu'n rhagweithiol.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi methu â chyflawni cymal 4.4 o'i gynllun iaith.

6 Argymhellion

- 6.1 Ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, rwyf o'r farn y dylai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus weithredu'n unol â'r argymhellion canlynol a wneir dan adran 19 y Ddeddf:

Argymhelliad 1

Dylai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a datblygu eu gwasanaethau technoleg gwybodaeth LPA newydd yn hytrach na meddwl am welliannau neu ddatrysiadau'n ddiweddarach.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 11 Awst 2022

Argymhelliad 2

Dylai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gyflwyno cynllun manwl ar gyfer cwblhau'r gwaith a chyflawni'r prosiect o alluogi ceisiadau am Atwrneiaeth Arhosol gael eu gwneud ar-lein yn Gymraeg.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 11 Awst 2022

Argymhelliad 3

Dylai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gyfri yr amser delio gyda cheisiadau am Atwrneiaeth Arhosol Cymraeg a Saesneg ar wahân. Trwy wneud hyn, bydd modd cofnodi unrhyw broblemau neu oedi sy'n codi.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 11 Awst 2022

7 Mynegai i'r atodiadauⁱ

Atodiad 1 E-bost gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus dyddiedig 17 Gorffennaf 2020.

Atodiad 2 Llythyr gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus dyddiedig 12 Ebrill 2021

Atodiad 3 Llythyr gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus dyddiedig 25 Mehefin 2021

Atodiad 4 Llythyr gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus dyddiedig 14 Awst 2021

ⁱ Atodir dogfennaeth yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno neu ei chyhoeddi.